This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

PRIFYSGOL DE CYMRU

COD YMDDYGIAD MYFYRWYR

1. CYFLWYNIAD

1.1 Dylid darllen y Cod Ymddygiad Myfyrwyr (y Cod) ar y cyd â'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr a'r Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer (y Gweithdrefnau).

1.2 Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i ddarparu profiad o ansawdd da i fyfyrwyr, i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a meithrin ymdeimlad cryf o gymuned ar gyfer ein myfyrwyr.

1.3 Mae'r Cod wedi'i seilio ar barch at gymuned y Brifysgol, y gymuned leol ehangach, at unigolion, eiddo a'r amgylchedd.

1.4 Bydd methiant i gydymffurfio â'r Cod hwn yn cael ei drin fel achos o gamymddygiad, ac ymdrinnir ag unrhyw honiadau o dan y Weithdrefn briodol.

1.5 Mae'r Cod hwn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig yn berthnasol i'r canlynol:

- Myfyrwyr sy'n astudio gyda Phrifysgol De Cymru
- Myfyrwyr sy'n astudio ar leoliadau gwaith neu sy'n ymgymryd â dysgu yn y gwaith
- Myfyrwyr y cymeradwywyd iddynt gael caniatâd i fod yn absennol
- Myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru gyda phartneriaid cydweithredol, o ran y Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer yn unig (gweler adran 1.6)
- Prentisiaid
  (D.S. Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at 'fyfyriwr'/ 'fyfyrwyr' yn golygu 'prentis'/ 'prentisiaid'.)

1.6 Nid yw'r Cod hwn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig (ac eithrio'r Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer) yn berthnasol i'r canlynol:

- myfyrwyr sydd wedi ymrestru gyda phartneriaid cydweithredol, lle bydd gweithdrefnau disgyblu partneriaid cydweithredol yn berthnasol; neu fyfyrwyr sydd hefyd yn aelodau o staff y Brifysgol, lle bydd y gweithdrefnau disgyblu staff yn berthnasol.

1.7 Ar gyfer y rheiny sydd wedi'u cofrestru ar raglenni astudio proffesiynol fel nyrsio a bydwreigiaeth, addysg, gwaith cymdeithasol, ac ati, sy'n gosod eu safonau proffesiynol neu'u rheoliadau Ffitrwydd i Ymarfer eu hunain, mae'r Cod hwn yn

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

ychwanegu at, ac nid yw'n disodli, y safonau, y rheoliadau neu'r gofynion ymddygiad proffesiynol hynny.

1.8 Mae gan y Brifysgol ddyletswydd o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i atal myfyrwyr rhag cael eu radicaleiddio neu'u denu tuag at eithafiaeth ddi-drais, eithafiaeth dreisgar a/neu derfysgaeth, gan gynnwys radicaleiddio neu ddenu pobl eraill at weithgareddau/ymddygiadau o'r fath, a cheisio sicrhau eu bod yn cael cyngor a chymorth priodol. Os oes gan aelod o staff neu fyfyriwr seiliau rhesymol dros bryderu bod myfyriwr yn cael ei radicaleiddio neu'i ddenu at, neu'n denu myfyrwyr eraill at, weithgareddau a all arwain at weithredoedd o eithafiaeth ddi-drais, eithafiaeth dreisgar a/neu derfysgaeth, dylai godi'r mater gyda'r Rheolwr Academaidd dynodedig (neu gyfwerth) yn y lle cyntaf. (Gweler Protocol Atal y Brifysgol).

1.9 Wrth gymhwyso'r Cod hwn, mae'r Brifysgol yn ceisio cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n hyrwyddo preifatrwydd, cyfle cyfartal a dim gwahaniaethu.

2. SAFONAU YMDDYGIAD MYFYRWYR

2.1 Rhaid i fyfyrwyr gadw at holl godau, rheoliadau a pholisïau'r Brifysgol sy'n rheoli trefniadaeth a rheolaeth effeithiol mewn meysydd gweithgarwch penodol o fewn y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys y rheiny sy'n cael eu cynnwys yn benodol fel rhan o raglen astudio (gan gynnwys unrhyw god ymddygiad proffesiynol sy'n cael ei ymgorffori yn hynny o beth). Ceir rheoliadau ar wahân hefyd, sef; y Siarter Myfyrwyr (sy'n nodi'r hyn y gall ein myfyrwyr ei ddisgwyl gan y Brifysgol a'r hyn mae'r Brifysgol yn ei ddisgwyl yn gyfnewid am hynny); a Rheolau Sefydlog Undeb y Myfyrwyr, sy'n cwmpasu defnydd myfyrwyr o gyfleusterau Undeb y Myfyrwyr ac ymddygiadau disgwyliedig wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau Undeb y Myfyrwyr.

2.2 Disgwylir i bob myfyriwr fod yn ystyriol o anghenion cyd-fyfyrwyr, ymwelwyr a staff, ac integreiddio'n gadarnhaol â'r gymuned leol.

2.3 Disgwylir i fyfyrwyr fod yn ystyriol o bobl eraill, a chydnabod sut gall eu hymddygiadau effeithio ar fyfyrwyr eraill, staff a'r gymuned ehangach.

2.4 Disgwylir i fyfyrwyr ddefnyddio pob math o gyfathrebu ysgrifenedig, digidol ac ar lafar (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a safleoedd rhwydweithio) yn gyfrifol, gan barchu hawl pobl eraill i breifatrwydd bob amser.

3. EGWYDDORION CYFFREDINOL

3.1 Mae'r Cod yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr yn eu perthynas â'r canlynol:

- y Brifysgol
- cyd-fyfyrwyr
- staff y Brifysgol
- pobl sy'n ymweld â'r Brifysgol
- y cyhoedd pan na fyddant yn y Brifysgol

Mae'r Cod yn berthnasol yn ystod holl weithgareddau'r Brifysgol pan fyddant yn digwydd:

- ar safleoedd y Brifysgol
- trwy ddulliau electronig, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

- yn ystod lleoliadau, teithiau maes neu weithgareddau clwb Undeb y Myfyrwyr;
- oddi ar y safle rhwng aelodau'r Brifysgol

3.2 Gall aelodau o'r Brifysgol, staff lleoliadau, cyflogwyr prentisiaeth neu'r cyhoedd godi pryderon.

3.3 Mae'r Cod a'r Gweithdrefnau wedi eu cynllunio i sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu'n deg ac yn gyson o ran yr holl fyfyrwyr.

3.4 Bydd y Brifysgol yn cynnal achosion disgyblu mewn modd cyfrinachol a sensitif a disgwylir y bydd myfyrwyr yn gweithredu yn yr un modd.

3.5 Ni fydd y Brifysgol yn datgelu unrhyw wybodaeth i drydydd partïon ynghylch ymchwiliadau a chanlyniadau o achosion ymddygiad myfyrwyr, oni bai fod disgwyliadau cyfreithiol o dan reoliadau diogelu data'r DU yn berthnasol.

3.6 Bydd honiadau o gamymddygiad a gyflwynir yn ddienw dim ond yn cael eu hystyried yn unol â disgresiwn y Brifysgol. Mae'r ffactorau y bydd y Brifysgol yn eu hystyried wrth arfer y disgresiwn hwn yn cynnwys:

- pa mor ddifrifol yw'r materion a godwyd;
- hygrededd y pryder; a
- thebygolrwydd cadarnhau'r honiad o ffynonellau priodoladwy.

4. CAMYMDDWYN SYDD HEFYD YN DROSEDD

4.1 Bydd y Brifysgol yn cefnogi'n llawn neu'n ysgogi, os bydd angen, ymchwiliad gan yr heddlu i weithgarwch troseddol. Gallai ymddygiad troseddol neu droseddau disgyblu tra bydd rhywun yn fyfyriwr yn y Brifysgol hefyd arwain at gymryd camau o dan y Gweithdrefnau Ymddygiad Myfyrwyr neu Ffitrwydd i Ymarfer, yn yr un modd ag y bydd ymddygiad amhroffesiynol, a allai hefyd fynd yn groes i ymddygiad proffesiynol fel y mae'n berthnasol i fyfyrwyr.

4.2 Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i'w staff a'i myfyrwyr, ac felly, rhaid ei hysbysu am unrhyw weithgarwch troseddol honedig gan ei myfyrwyr. Gall methu hysbysu'r Brifysgol (Ysgrifennydd y Brifysgol neu'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr) am gyfweliad heddlu neu arestio am unrhyw drosedd, gan gynnwys rhybuddiad neu gerydd, cyn gynted ag y bydd wedi digwydd, gael ei ystyried yn achos o gamymddygiad.

4.3 Ar ôl derbyn cynnig o le, gofynnir i ymgeiswyr gysylltu ag Ymholiadau a Derbyniadau i ddatgelu unrhyw gollfarnau 'heb ddarfod' a chosbau cysylltiedig, a ystyrir yn berthnasol.

Collfarnau perthnasol yw'r rhai sydd â goblygiadau i ddyletswydd gofal y Brifysgol tuag at ddiogelwch ei myfyrwyr, ei staff a'i hymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i euogfarnau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- trais;
- troseddau rhywiol;
- cyflenwi cyffuriau;
- arfau tân;
- llosgi bwriadol;
- terfysgaeth.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Gall hyn hefyd fod yn berthnasol i ymgeiswyr sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr wahardd heb gollfarn. Mae'r rhestr wahardd yn cynnwys manylion unigolion sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed oherwydd ymddygiad yn y gorffennol.

Mae hyn oherwydd efallai y bydd angen i'r Brifysgol adlewyrchu unrhyw gyfyngiadau ac amodau sydd wedi'u gosod.

Gall methu â datgelu gael ei ystyried yn gamymddwyn. Ceir rhagor o wybodaeth ym mholisi Collfarnau Troseddol Ymholiadau a Derbyniadau.

5. CAMAU RHAGOFALUS AT DDIBEN YMCHWILIAD

5.1 Pan fydd honiad yn ddigon difrifol, gall y Panel Asesu Risg, neu, o ganlyniad i natur frys neu sensitif y mater, Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai), gymeradwyo camau rhagofalus hyd nes bydd ymchwiliad/gwrandawiad wedi'i gynnal a chasgliad wedi'i lunio (gweler Gweithdrefnau'r Panel Asesu Risg am ragor o fanylion). Bydd camau rhagofalus yn rhesymol a chymesur.

6. ENGHREIFFTIAU O GAMYMDDYGIAD

6.1 Bydd gweithred yn cael ei hystyried yn achos o gamymddygiad, ac felly'n destun camau disgyblu:

- os yw gyfwerth ag, neu'n debygol o fod cyfwerth ag, ymyrryd yn amhriodol â gweithrediaeth a gweithgareddau priodol y Brifysgol, neu'r rheiny sy'n gweithio neu'n astudio yn y Brifysgol, neu
- os yw'n niweidio, neu'n debygol o niweidio, enw da'r Brifysgol.

6.2 Pan fydd myfyriwr yn ymddwyn yn afresymol yn ei ryngweithio â staff y Brifysgol, bydd yn derbyn y Canllawiau Ymddygiad Annerbyniol a gellir cymryd camau gweithredu fel yr amlinellir yn y ddogfen hon.

6.3 Mae'r canlynol yn rhoi rhestr ***anghyflawn*** o enghreifftiau o gamymddygiad posibl, y gall rhai ohonynt fod cyfwerth â throsedd. Mae unrhyw un o'r gweithredoedd hyn a gyflawnir trwy ddefnyddio technoleg, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, hefyd yn gyfystyr â chamymddwyn. Mae'r Canllawiau ar Gymhwyso Cosbau i'w gweld yn Adran Naw o'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr ac Adran Un ar Ddeg y Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer:

6.3.1 Aflonyddu a bwlio

- Cyswllt neu anaf corfforol digroeso gan gynnwys: dyrnu, gwthio, cydio, cicio, slapio, brathu, tynnu gwallt;
- Sylwadau neu ystumiau sarhaus neu fygythiol;
- Dilyn person arall dro ar ôl tro heb reswm da;
- Anafu un person neu grŵp yn fwriadol gan berson neu grŵp arall trwy ddulliau corfforol, geiriol, di-eiriau neu seicolegol.

6.3.2 Camymddwyn rhywiol

- Ymgymryd â, neu geisio ymgymryd â chyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb ganiatâd

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

- Tynnu ffotograffau rhywiol o rywun arall heb ei ganiatâd/chaniatâd, er enghraifft tynnu llun i fyny sgert
- Rhannu deunyddiau rhywiol preifat o rywun arall heb ganiatâd a/neu golygu delweddau i'w gwneud yn rhywiol eglur;
- Cusanu a/neu gyffwrdd yn amhriodol heb ganiatâd
- Dangos organau rhyw i rywun arall mewn modd amhriodol
- Dilyn rhywun arall dro ar ôl tro gyda bwriad rhywiol
- Gwneud sylwadau annymunol o natur rywiol
- Paratoi i bwrpas rhyw;
- Gorfodaeth neu fwlio ag elfennau rhywiol;
- Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol.

6.3.3 Ymddygiad ymosodol

- Bygwth brifo rhywun arall
- Ymgymryd ag unrhyw weithgarwch neu ymddygiad sy'n mynd yn groes i Gynllun Cydraddoldeb Strategol neu bolisïau Urddas wrth Astudio/Urddas yn y Gwaith y Brifysgol, gan gynnwys gweithredoedd o gasineb hiliol, eithafiaeth ddi-drais, eithafiaeth dreisgar a/neu derfysgaeth, gan gynnwys radicaleiddio neu ddenu pobl eraill i ymgymryd â gweithgareddau/ymddygiad o'r fath a sylwadau ymosodol yn ymwneud â rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, hil, beichiogrwydd, priodas/partneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, anabledd neu oedran[1] unigolyn
- Gweithredu mewn modd bychanol a gelyniaethus
- Honiadau maleisus neu drallodus yn erbyn aelodau eraill o gymuned y Brifysgol;
- Defnyddio iaith amhriodol
- Cysylltu â rhywun arall dro ar ôl tro (dros y ffôn, trwy'r e-bost, trwy negeseuon testun neu ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol) yn erbyn dymuniadau'r person arall (gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Brifysgol hefyd: http://its.southwales.ac.uk/documents/download/6/).

6.3.4 Difrod i eiddo

- Achosi difrod i eiddo'r Brifysgol, neu eiddo myfyrwyr eraill, staff neu ymwelwyr.

6.3.5 Cymryd neu ddefnyddio eiddo heb awdurdod

- Methu â chydymffurfio â'r Rheoliadau Cyfrifiadura TG
- Camddefnyddio eiddo'r Brifysgol (er enghraifft cyfrifiaduron ac offer labordy)
- Mynediad anawdurdodedig i adeiladau'r Brifysgol, neu'u defnyddio heb awdurdod
- Prynu neu archebu nwyddau ar ran y Brifysgol heb awdurdodiad priodol

6.3.6 Achosi pryder ynghylch iechyd neu ddiogelwch

- Gweithred/anweithred a achosodd, neu a allai fod wedi achosi, difrod ar safle'r Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft analluogi offer

[1] Dylid nodi bod digwyddiadau sy'n ymddangos i'r dioddefwr neu unrhyw un arall eu bod yn seiliedig ar ragfarn tuag ato oherwydd ei hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol, yn cael eu hadnabod fel digwyddiadau casineb. Pan fydd digwyddiad casineb hefyd yn drosedd, caiff ei adnabod fel trosedd gasineb. Nid yw trosedd gasineb yn drosedd benodol ynddi'i hun; yn hytrach, mae'n dynodi trosedd fel ymosod, aflonyddu, troseddau rhywiol, difrod a llythyrau cas, y canfyddir ei fod wedi cael ei gymell gan elyniaeth neu ragfarn ar sail hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

diffodd tân neu gyflenwi cyffuriau a reolir/cael cyffuriau a reolir yn eich meddiant) ac yn cynnwys ymyrryd ag unrhyw beth a ddarperir er budd Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Gweithred/anweithred a achosodd, neu a allai fod wedi achosi, pryder iechyd a diogelwch ar safle'r Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft, ysmygu sigaréts mewn ardaloedd heb eu dynodi)
- Cario arfau posibl, er enghraifft cyllyll, tra byddant ar gampws y Brifysgol

6.3.7 Rhwystr gweithredol

- Gweithredoedd/anweithredoedd/datganiadau wedi eu bwriadu i dwyllo'r Brifysgol[2]
- Methu â hysbysu'r Brifysgol am gyfweliad heddlu neu arestio am unrhyw drosedd, gan gynnwys rhybuddiad neu gerydd, cyn gynted â phosibl ar ôl iddo ddigwydd
- Tarfu ar weithgareddau'r Brifysgol (yn cynnwys gweithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol) ar safle'r Brifysgol neu yn rhywle arall
- Tarfu ar weithrediadau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw un o fyfyrwyr neu weithwyr y Brifysgol, neu unrhyw un sydd ag awdurdod i ymweld â'r Brifysgol
- Llwgrwobrwyo, neu geisio llwgrwobrwyo, aelod o staff y Brifysgol
- Ymyrryd yn amhriodol â gweithgareddau'r Brifysgol (yn cynnwys gweithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol) ar safle'r Brifysgol neu yn rhywle arall
- Ymyrryd yn amhriodol â gweithrediadau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw un o fyfyrwyr neu weithwyr y Brifysgol neu unrhyw un sydd ag awdurdod i ymweld â'r Brifysgol
- Methu â chydymffurfio â chais rhesymol unigolyn ag awdurdod
- Methu â rhoi eu henw a'u cyfeiriad i swyddog neu weithiwr yn y Brifysgol pan fydd swyddog neu weithiwr o'r fath yn gofyn yn rhesymol iddynt wneud hynny wrth gyflawni eu dyletswyddau

6.3.8 Niwed i enw da

- Ymddygiad sydd wedi achosi, neu a allai fod wedi achosi, niwed i enw da'r Brifysgol.

6.3.9 Materion sy'n benodol i'r wlad astudio

- Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, fethu cydymffurfio â chyfreithiau'r wlad astudio a methu cydymffurfio â pholisïau neu reoliadau, gan gynnwys rheolau fel y gallant gael eu gosod gan reolwyr mewn perthynas â chyfleusterau a rennir neu gyfleusterau'r campws.

7. COSBAU

7.1 Rhaid i fyfyrwyr gydymffurfio ag unrhyw gosb a osodwyd gan y Brifysgol o ran unrhyw gamymddygiad blaenorol. Os na fyddant yn gwneud hynny, gellir rhoi cosb fwy difrifol.

7.2 Gall achosion niferus neu fynych o gamymddygiad fod yn fwy difrifol nag un weithred o gamymddygiad, a gellir ystyried canfyddiadau blaenorol wrth benderfynu ar gosbau.

[2] Pan gaiff trosedd ei chyflawni gan rywun er mwyn iddo gael ei dderbyn i'r Brifysgol, e.e. ffugio cymwysterau, lle na dyfarnwyd unrhyw gredyd, bydd hyn yn cael ei ystyried trwy'r gweithdrefnau derbyn. Pan enillwyd credyd, ymdrinnir â'r mater trwy'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr.

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

8. YMCHWILIO I ACHOS HONEDIG O GAMYMDDYGIAD GAN FYFYRIWR

8.1 Mae achosion o gamymddygiad honedig gan fyfyriwr yn amrywio o ran eu natur a'u cymhlethdod, ond pan dybir ei bod yn briodol, ymdrinnir â nhw o dan un neu fwy o'r canlynol:

- Cod Ymddygiad Myfyrwyr: https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/student-conduct/
- Gweithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer:
- Ffitrwydd i Ymarfer | Prifysgol De Cymru
- Rheoliadau Camymddwyn yn Neuaddau Preswyl y Brifysgol: https://www.southwales.ac.uk/student-life/accommodation/halls-residence-regs/
- Rheoliadau Cefnogaeth i Astudio: https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/fitness-study/
- Protocol Atal y Brifysgol: https://thehub.southwales.ac.uk/Interact/Pages/Content/Document.aspx?id=4755

8.2 Caiff myfyrwyr sy'n gwneud honiad am gamymddygiad neu sy'n destun ymchwiliad am achos honedig o gamymddygiad, eu cynghori'n gryf i geisio cyngor a chymorth gan y canlynol:

- Undeb y Myfyrwyr: https://www.uswsu.com/
- Gwasanaeth Myfyrwyr y Brifysgol https://advice.southwales.ac.uk/a2z/student-services/
- Y Gaplaniaeth http://chaplaincy.southwales.ac.uk/